| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Ebrill 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg / Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Adroddiad yr Athro Donaldson)** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Adolygiad annibynnol o’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru gan yr Athro Graham Donaldson.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Ystyried goblygiadau’r adroddiad ar gyfer addysg a gwasanaethau cysylltiedig ag addysg yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1. ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch argymhellion yr adroddiad gan yr Athro Donaldson

3.2 penderfynu a oes angen monitro cynnydd adolygiad Donaldson a gweithredu’r argymhellion

ac yn

3.3 ystyried a oes angen cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad i ddylanwadu ar raglen addysg Cymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ym mis Mawrth 2014 comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson gan y Gweinidog Addysg i gynnal adolygiad o drefniadau cwricwlwm ac asesu Cymru, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4 (gweler Atodiad 1 – Dyfodol Llwyddiannus, Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru).

4.2 Mae adroddiad yr Athro Donaldson yn nodi diffygion y trefniadau cwricwlwm presennol ac yn gwneud cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â rhain a gwella'r ffordd y caiff plant eu haddysgu a'u hasesu. Mae'r cynigion yn radical ac yn eang. Maent hefyd yn perthyn i'w gilydd a dylid eu hystyried fel cyfres integredig yn hytrach nag ar wahân. Y prif feysydd ffocws yw:

- Y Cwricwlwm.
- Asesu/Adrodd
- Y Gymraeg
- Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
- Atebolrwydd
- Deddfwriaeth

Mae'r argymhellion wedi eu rhestru yn Atodiad 2.

4.3 Os yw argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu'n llawn, byddai'r cynnig cwricwlwm i blant a phobl ifanc, dulliau asesu, adrodd a chofnodi yn wahanol iawn. Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol yw y byddai'r cynnig cwricwlwm yn cael ei drefnu yn "chwe maes dysgu a phrofiad": celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg. Yn ogystal, mae'n argymell y dylai bob athro gyflwyno tri "chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd", sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Byddai hyn yn cynnwys pob lleoliad.

4.4 Byddai gweithredu canlyniadau'r adolygiad hwn yn cymryd cryn dipyn o amser. Byddai goblygiadau o ran hyfforddi athrawon a chynnal y cynnig dysgu yn ystod y cyfnod o drawsnewid.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

*Amh.*

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Byddai'r gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ailasesu pan fydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu gweithredu.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

*Amh.*

**9.** **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

*Amh.*

**10.** **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

*Amh.*

**11.** **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthyglau 6.3.2(b) ac (c) o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Addysg
Ffôn: 01824 708009